Plentyn B

Bwriedir i'r astudiaethau achos hyn godi materion mewn cyd-destun ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau hollbwysig, yn enwedig ynghylch gwaith amlasiantaeth. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a chodi cwestiynau am atal o fewn sefyllfaoedd o gam-drin, esgeulustod a niwed hysbys. Maen nhw wedi'u crynhoi i gynorthwyo gyda'r broses hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau adolygu go iawn.

Cyd-destun a chefndir yr adolygiad

Ganed Plentyn B yn 2009 yn unig blentyn i fam sengl oedd â phroblem camddefnyddio sylweddau. Gwelodd Plentyn B y fam yn dioddef cam-drin domestig, ac arestiwyd y fam am ddwyn o siopau hefyd. Yn ogystal, cyhuddwyd y fam o lofruddio taid Plant B ond fe'i cafwyd yn ddieuog o ddynladdiad ar sail gwallgofrwydd. Datgelodd Plentyn B ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol gan un o gariadon y fam.

Roedd gwasanaethau'n ymwneud â'r teulu o'r cychwyn cyntaf ar ôl geni'r plentyn. Roedd enw'r plentyn wedi'i nodi yn y gofrestr amddiffyn plant rhwng mis Mehefin 2014 a mis Medi 2015.

Amgylchiadau, a'r heriau a wynebwyd gan yr unigolyn

Nid oedd gan Blentyn B amgylchedd cartref sefydlog ac esgeuluswyd iechyd, anghenion datblygiadol ac addysg Plentyn B yn ystod chwe blynedd cyntaf ei blentyndod. Roedd dannedd sugno Plentyn B yn pydru, a bu'n rhaid tynnu 10 dant. Hefyd, roedd gan Blentyn B nam ar un o'i lygaid ac roedd angen iddo ddefnyddio sbectol i gywiro'r nam, er nad oedd i'w weld yn eu defnyddio'n rheolaidd. Roedd Plentyn B wedi methu profion clyw a llygaid, gan olygu bod gan Blentyn B anhawster cymedrol i ddeall iaith lafar.

Beth ddigwyddodd?

- Nid oes unrhyw gyfeiriad at salwch meddwl y fam yn llinell amser yr adolygiad hwn, er ei bod yn dystiolaeth hanfodol yn yr achos llofruddiaeth.
- Ymchwiliwyd i dri atgyfeiriad gan y gwasanaethau i blant, ond ni ddatblygwyd proses amddiffyn plant.
- Cymerodd yr asesiad craidd 12 wythnos i'w gwblhau ond dylai fod wedi cymryd llai na 35 diwrnod.
- Bu'n rhaid aros chwe mis cyn sefydlu Cynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol ar ôl yr atgyfeiriad gwreiddiol.
- Cafwyd oedi gan yr heddlu wrth rannu gwybodaeth gyda'r fam am ei phartner newydd (gwnaeth y fam gais drwy Gynllun Datgelu Cam-drin Domestig Deddf Clare) .
- Nid oedd cyfarfodydd y grŵp craidd yn cael eu mynychu'n rheolaidd gan y teulu na'r plentyn.

- Teimlai'r panel na fyddai'r bwrdd diogelu yn gwybod am Blentyn B oni bai bod y taid wedi marw (roedd yr heddlu wedi gwneud atgyfeiriad fel rhan o'i adolygiad o laddiad domestig).

- Caniatawyd y Gorchymyn Gofal ar y 10 Ionawr 2016. Mae Plentyn B bellach mewn gofal maeth ac yn gwneud yn dda mewn amgylchedd teuluol gwell a chefnogol.

Pam y digwyddodd?

- Ni roddwyd unrhyw reswm pam y bu oedi o chwe mis rhwng yr atgyfeiriad a'r gynhadledd achos (nid oedd y gweithwyr cymdeithasol gwreiddiol yn eu swyddi adeg y digwyddiad dysgu).

- Roedd oedi i ddatgeliadau'r heddlu (Deddf Clare) yn deillio o ddiffyg monitro mewnflwch.

- Ni rannodd yr heddlu'r holl PPD1 (Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd – PPN – erbyn hyn – mae'r heddlu'n defnyddio'r rhain i rannu gwybodaeth am blentyn/plant mewn perygl, neu am dystion trais domestig neu drosedd) gyda phartneriaid amlasiantaethol perthnasol gan olygu na nodwyd y risgiau posibl.

- Diffyg ymgysylltu gan y teulu (y fam a'r taid).

- Ni wnaeth asiantaethau ymchwilio'n ffurfiol i gefndir a pherthynas y taid â Phlentyn B tan 2015.

- Roedd asiantaethau'n ymwybodol o berthynas y fam ag un cariad, ac er bod Plentyn B wedi mynegi pryder y byddai'r cariad hwn yn brifo'r fam, ni chymerwyd unrhyw gamau i asesu ei rôl ym mywyd Plentyn B.

- Gwrthododd y fam roi caniatâd i weithwyr cymdeithasol gysylltu ag asiantaethau eraill i gasglu gwybodaeth am Blentyn B a'r teulu.

- Ni chynhaliwyd digon o sgyrsiau gyda Phlentyn B i ddeall barn, dymuniadau a theimladau Plentyn B. Roedd y sgyrsiau'n canolbwyntio'n bennaf ar anghenion y fam yn hytrach nag anghenion Plentyn B, hynny yw amharwyd ar broses amddiffyn plant Plentyn B pan gerddodd y fam allan o'r cyfarfod.

- Ni wnaeth y practis deintyddol unrhyw atgyfeiriadau amddiffyn plant wrth nodi esgeulustod deintyddol cynnar.

- Proses wael o gadw cofnodion a chyfathrebu rhwng sawl asiantaeth.

Argymhellion yr adroddiad

Mae'r adolygiad achos difrifol yn gwneud 13 o argymhellion:

1. Pan gyflwynir gorchymyn gofal ar gyfer plentyn, penderfynir a ddylid nodi atgyfeiriad i'r Bwrdd Diogelu i ystyried adolygiad ymarfer plant ai peidio.

2. Pan fydd gwasanaethau cyfreithiol wedi rhoi cyngor yn ymwneud â phlentyn sy'n destun Adolygiad Ymarfer Plant, byddant yn cael eu cynrychioli ar y panel.

3. Rhaid i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol fod yn fodlon bod pob ymarferydd ymweliad amddiffyn plant statudol wedi cofnodi ei fod wedi siarad â Phlentyn B ar ei ben ei hun ac mewn amgylchedd priodol. Hefyd, dylai archwiliadau mewnol o ffeiliau achos ddangos tystiolaeth o'r broses o uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn cofnodi eu cymeradwyaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun amddiffyn plant.

4. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ail-lansio ei 'Protocol Amlasiantaethol ar Weithio gyda Theuluoedd nad ydynt yn Cydweithio â Materion Diogelu' ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'i gynnwys.

5. Bydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn fodlon bod hyfforddiant, cymorth a chyngor yn ymwneud â'r angen i rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau ac o fewn asiantaethau at ddibenion diogelu plant, gan gynnwys pan fydd angen caniatâd rhieni ac na fydd ei angen, yn ogystal ag ymholiadau a gwiriadau'n ymwneud ag aelodau ehangach o'r teulu, ar gael i staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ym mhob asiantaeth bartner.

6. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cael sicrwydd bod ymarferwyr yn deall perthnasedd Profiadau Niweidiol Plentyndod, a'u bod yn ymwybodol o'u heffaith hirdymor bosibl ac yn deall cysyniadau sawl math o erledigaeth ac erledigaeth reolaidd.

7. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i bob asiantaeth bartner sicrhau bod aelodau staff yn mynychu hyfforddiant Trais Domestig Lefel 2 o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel eu bod yn fedrus, yn hyderus ac yn gallu 'Gofyn a Gweithredu' gan nodi a chynnig cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn ffordd ragweithiol.

8.Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod pob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ymwybodol o'r cysyniad o esgeulustod deintyddol a bod pob ymarferydd deintyddol cyffredinol yn gwybod sut i gael hyfforddiant a chyngor priodol ar ddiogelu plant, fel bod ymarferwyr yn hyderus wrth weithredu'n briodol pan welant esgeulustod deintyddol mewn perthynas â phlentyn.

9. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn darparu hyfforddiant amlasiantaethol ar sail dreigl er mwyn hysbysu ymarferwyr am eu rolau a'u pwerau eu hunain a rolau a phwerau gweithwyr proffesiynol eraill mewn proses amddiffyn plant. Bydd hyn yn helpu i wella dealltwriaeth a chyfathrebu amlasiantaethol.

10. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cyflwyno templed llinell amser amlasiantaethol safonol cyson. Bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am ei gwblhau wrth fynychu'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol.

11. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn herio ac yn dwyn i gyfrif asiantaethau partner y mae eu hymarferwyr yn methu'n rheolaidd â blaenoriaethu presenoldeb a chyfranogiad mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a chyfarfodydd grŵp craidd.

12. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn fodlon bod adrannau addysg ledled y rhanbarth yn sicrhau ymgysylltiad ystyrlon gan ysgolion a phresenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd grwpiau craidd, hyd yn oed os oes angen eu trefnu yn ystod gwyliau ysgol.

13. Bydd Heddlu De Cymru yn adolygu ei weithdrefn ar gyfer cysylltu rhieni â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant er mwyn cryfhau'r broses.

Cyfeiriadau

Warlow A. a Baker A. (2018)
re:WesternBay,Concise Child Practice Review

www.safeguarding.wales/2018/11/29/western-bay-concise-child-practice-review-362017